**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1255
Ein cyf/Our ref EM/00500/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Mawrth 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich e-bost ar 27 Ionawr ynglŷn â Deiseb P-06-1255 Sicrhau bod tadau/partneriaid geni yn cael eu cynnwys ym mhob asesiad a gofal drwy gydol y cyfnod amenedigol.

Rwy'n cydnabod bod y berthynas â'r ddau riant yn hanfodol i les a datblygiad plentyn o'r dechrau'n deg. Mae cefnogi a hybu cyfraniad cadarnhaol gan bob rhiant i fagwraeth plentyn yn ganolog i'n holl bolisïau ar gyfer plant a'r blynyddoedd cynnar

Yn ystod y pandemig, cafodd cyfyngiadau ar bresenoldeb eu gweithredu mewn lleoliadau gofal iechyd er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y rhieni a oedd yn rhoi genedigaeth, eu babanod, a'r staff a oedd yn eu cynorthwyo, a phawb arall yr oedd angen iddynt fynychu gwasanaethau mamolaeth ar y pryd. Yn anffodus, mae'n bosibl bod y cyfyngiadau hyn wedi lleihau'r amser yr oedd rhai tadau a rhieni'n gallu ei dreulio gyda'u babanod yn ystod y dyddiau cyntaf. Mae'r gallu i ganiatáu presenoldeb partneriaid mewn gwasanaethau mamolaeth wedi bod yn seiliedig ar ddull gweithredu lleol a'r asesiadau risg perthnasol a gynhelir gan bob bwrdd iechyd unigol. Mae llety a chyfleusterau gwasanaethau mamolaeth yn amrywio'n fawr o fwrdd i fwrdd, ac felly roedd yn rhaid i asesiadau risg annibynnol gael eu cynnal yn lleol.

Wrth inni symud i gyfnod newydd yn y pandemig, mae swyddogion yn edrych ar y canllawiau a ddarparwyd i fyrddau iechyd ar gyfer sicrhau y bydd polisïau ymweld, gan gynnwys presenoldeb tadau a phartneriaid mewn gwasanaethau mamolaeth, yn gynaliadwy ac yn briodol, gan ystyried sut y gellid lleihau'r gwahaniaethau mewn polisi ar draws Cymru. Byddaf yn disgwyl i'r cyngor hwn gydbwyso diogelwch pobl sy'n mynychu ac yn gweithio yn ein lleoliadau gofal iechyd ar yr un llaw, â llesiant teulu a chyfeillion a mynediad at gymorth a gofal.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym mis Ionawr, cyhoeddais £1.15 miliwn ar gyfer lansio Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol. Fel rhan o'r rhaglen hon rydym yn cyllido Rheolwr Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth a fydd yn ystyried sut y gallwn ymgysylltu'n fwy effeithiol â rhieni a theuluoedd ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. Rwy'n awyddus i sicrhau bod profiadau pob rhiant a theulu, gan gynnwys tadau, yn helpu i lywio polisi yn y dyfodol, yn ogystal â diogelwch ein gwasanaethau mamolaeth, amenedigol, a newyddenedigol, a bod y gwasanaethau hyn yn cael eu gwella drwy sicrhau eu bod yn deg ac yn gynhwysol i bawb.

Er mwyn cefnogi'r gwaith canfod cychwynnol, byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai'r swyddog newydd, pan fydd yn dechrau yn ei swydd, yn gallu cyfarfod â'r deisebwr i drafod ei brofiadau a thrafod y newidiadau y byddai am eu gweld yn y dyfodol, o ran cynnwys tadau a phartneriaid ac ymgysylltu â nhw. Os ydych yn teimlo y byddai hon yn ffordd dda ymlaen, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ofyn i'r deisebwr a fyddai'n fodlon rhannu ei fanylion cyswllt â'm swyddfa. Neu fel arall, mae croeso iddo gysylltu'n uniongyrchol â Karen Jewell, y Swyddog Nyrsio ar gyfer Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ( Karen.jewell@gov.wales ) i drefnu cyfarfod.

Diolch ichi am dynnu fy sylw at y mater pwysig hwn.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services